# Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

**2024 dsc 4**

## RHAN 1

Y SENEDD A GWEINIDOGION CYMRU

PROSPECTIVE

### 7 Adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd

(1) Rhaid i'r Llywydd gyflwyno cynnig sy'n cydymffurfio ag is-adran (2)—

(a) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 7 Tachwedd 2025, a

(b) sut bynnag, yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad hwnnw.

(2) Rhaid i'r cynnig—

(a) cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor at ddiben cynnal adolygiad o'r graddau—

(i) y dylai personau allu dal unrhyw swydd berthnasol ar y cyd;

(ii) y dylai person allu dal swydd berthnasol dros dro tra nad yw'r person a benodir i'r swydd honno neu a etholir i'r swydd honno ar gael, a

(b) cynnig bod y pwyllgor yn llunio adroddiad ar yr adolygiad, yn nodi ei argymhellion.

(3) Yn is-adran (2)(a), ystyr "swydd berthnasol" yw swydd—

(a) Aelod o'r Senedd;

(b) y Llywydd;

(c) Dirprwy Lywydd;

(d) aelod o Gomisiwn y Senedd (a benodir yn unol ag adran 27 o Ddeddf 2006);

(e) y Prif Weinidog;

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, Adran 7 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(f) Gweinidog Cymru (a benodir o dan adran 48 o Ddeddf 2006);

(g) Dirprwy Weinidog Cymru (a benodir o dan adran 50 o Ddeddf 2006);

(h) y Cwnsler Cyffredinol.

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys os, yn dilyn adolygiad o unrhyw rai o'r materion a grybwyllir yn is-adran (2)(a) gan bwyllgor a sefydlir yn unol â chynnig a gyflwynir yn unol ag is-adran (1), y gosodir adroddiad ar yr adolygiad gerbron y Senedd gan y pwyllgor.

(5) Os yw'r is-adran hon yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd ddatganiad sy'n—

(a) nodi ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad a grybwyllir yn is-adran (4), a

(b) nodi pa gamau, os oes rhai, y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw argymhellion yn yr adroddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 mewn grym ar 24.8.2024, gweler **a. 25(2)(a)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, Adran 7 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 7 coming into force by 2024 asc 4 s. 25(2)(a)